# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Cynghorydd:** | Susan Jones | Adran Etholiadol: | Tregŵyr |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd misol yn Llyfrgell Tregŵyr ar fore Sadwrn rhwng 11am a 12 ganol dydd lle'r oedd preswylwyr yn cael cyngor ar amrywiaeth o faterion. Cyflwynais adroddiadau misol i Gyngor Cymuned Tregŵyr yn amlinellu fy ngweithgareddau.

Mynychais gyfarfodydd PACT yn y pentref lle'r oedd pryderon preswylwyr yn cael eu cydnabod a rhoddwyd camau gweithredu ar waith, e.e. aed i'r afael â goryrru drwy'r pentref a chyflwynwyd mesurau lleihau cyflymder. Rwyf wedi cwrdd yn rheolaidd â thîm yr heddlu lleol i drafod y diweddaraf am faterion sy'n effeithio ar y pentref. Mynychais gyfarfodydd is-adrannol yr heddlu yng Ngorsaf yr Heddlu yng Ngorseinon hefyd.

Bûm yn sicrhau fy mod yn ymwybodol o'r ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn y ward, gan weithio i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y pentref. Mynychais gyfarfodydd ardal gyda'r Adran Tai er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o broblemau ac yn chwilio am atebion - aed i'r afael â pharcio yng Nghlos Morgan Owen.

Ar adeg ysgrifennu rwy'n parhau'n aelod o gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Tregŵyr ac Ysgol Gyfun Tregŵyr ac rwyf wedi mynychu llawer o bwyllgorau a chyrsiau hyfforddi perthnasol i'r rôl hon. Rwyf wedi ymdrin yn rheolaidd â nifer o faterion cyffredinol sy'n effeithio ar y ward, e.e. tyllau yn y ffordd, sachau gwastraff du, biniau graean, parcio a baw cŵn.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 12/12 | 100% |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 5/6 | 83% |
| Y Cyngor | 14/15 | 93% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6/8 | 75% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 7/12 | 58% |
| CYFANSWM | 44/53 | 83% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Sylwer y bu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydraddoldeb yn gwrthdaro â chyfarfodydd eraill y bu'n rhaid i mi eu mynychu, felly mae'r ffigur presenoldeb yn is nag arfer.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Yn ogystal â'm rôl fel Cynghorydd Sir, bûm hefyd yn Llywodraethwr Ysgol Gynradd Tregŵyr ac Ysgol Gyfun Tregŵyr ac yn aelod o Gymdeithas Gefeillio Tregŵyr.

Ar adeg ysgrifennu hyn, roeddwn yn cyfrannu at y broses graffu - Cynnwys y Cyhoedd, Mewnfuddsoddi, Darpariaeth Gofal Cartref, Craffu Perfformiad a Lles a mynychais lawer o gyfarfodydd, cyfwelais â llawer o bobl ac ymwelais â llawer o sefydliadau. Yn ogystal â hyn, roeddwn hefyd yn rhan o'r Tîm Ymweliadau Rota a fu'n ymweld â sefydliadau'r cyngor. Rwy'n Gynghorydd Cymuned Tregŵyr hefyd.

**Rhan 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Bûm yn ceisio sefydlu Siambr Fasnach er mwyn i fusnesau gydweithio i wella eu darpariaeth i'r cwsmeriaid yn y pentref ond, yn anffodus, ni fu hyn yn llwyddiannus oherwydd diffyg cefnogaeth.

Bûm yn gweithio gyda Gweithredu Gwledig Abertawe i sefydlu tair marchnad cynnyrch lleol gyda'r hwyr yn yr hydref. Roedd y rhain yn llwyddiannus ac, ar adeg ysgrifennu hyn, rwy'n gobeithio y trefnir mwy o ddigwyddiadau. Ar y cyd â swyddogion y cyngor, bûm hefyd yn rhan o drafodaethau â'r contractwyr a oedd yn gweithio ar yr orsaf drenau i godi ffens o gwmpas y rhandiroedd yn dâl am ddefnyddio ardal y maes parcio.

Ar adeg ysgrifennu hyn, rwy'n gweithio gyda'r Adran Parciau a grŵp o ferched o'r ysgol gyfun i fynd i'r afael â fandaliaeth yn y parc. Y bwriad yw creu fideo gan y disgyblion hyn a darparu celfi ychwanegol yn y parc yn y dyfodol agos.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Cymerais ran yn y cyrsiau hyfforddi canlynol:
27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
19/02/2014 - Sgiliau Cadeirio
22/01/2014 - Rheolau Trafod
27/11/2013 - Deall Cyllideb y Cyngor
25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol
Dyddiadau amrywiol yn 2013 - Academi Arweinyddiaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Bûm yn bresennol mewn ffeiriau haf a chyngherddau yn y ward, cyfarfodydd rheolaidd yr heddlu a chyfarfodydd eraill mewn perthynas â'm rôl fel llywodraethwr yr ysgol gyfun a'r ysgol gynradd. Rwy'n aelod o glwb cerdded Mawr ac mae gennyf ddiddordeb mewn materion yr amgylchedd. Bûm yn ymdrin â phroblemau amrywiol preswylwyr y tu allan i oriau cymorthfeydd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog Sylfaenol - £13,175

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 14.05.14 |
|---|---|